Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Rhydyfelin
# Holly Street
# Rhydyfelin
# Pontypridd
# RCT
# CF37 5DB

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2015**

**gan**

**Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliada'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**©Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/02/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Rhydyfelin wedi ei leoli yng Nghanolfan Blant Integredig Rhydyfelin. Mae hon yn adeilad fodern sy'n darparu ar gyfer plant ifanc o wahanol oedrannau ac mae’r Cylch yn defnyddio lleoliad sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol gyda defnydd o ardal allanol helaeth sydd ag adnoddau da.

Mae'r Cylch yn cael ei weinyddu gan Reolwr Gweithrediadau sydd yn goruchwylio nifer o leoliadau yn yr ardal. Mae ei rheolwr ardal cynorthwyol yn gyfrifol am weinyddu’r lleoliad o ddydd i ddydd.

Mae’r arweinydd sydd wedi bod yn ei swydd ers 2011 yn gyfrifol am ddarpariaeth addysgol y lleoliad. Mae’n cael ei chynorthwyo gan ddirprwy arweinydd, pedwar cynorthwy-ydd llawn amser ac mae un cynorthwy-ydd rhan amser yn cael ei chyflogi ar gyfer sesiwn y prynhawn. Mae gan yr holl staff gymwysterau addas a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc.

Cafodd y lleoliad ei sefydlu yn 2011 ac wedi’i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 26 o blant ar unrhyw un adeg. Mae'n gweithredu am 5 diwrnod yr wythnos gyda grŵp cyfrwng Cymraeg bob bore o 9 y.b. tan 11.30 y.b. Mae'r grŵp hwn wedi ei gofrestru gan Fudiad Meithrin ac wedi derbyn gwobr Cylch Rhagorol yn 2012. Mae sesiwn y prynhawn (12.15 y.p. tan 2.45 y.p.) trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r lleoliad ar agor am 42 wythnos o’r flwyddyn.

Mae plant yn dechrau yn y lleoliad ar ôl eu penblwydd yn ddwy oed ac yn symud ymlaen i’r ysgolion lleol pan fydd lleoedd ar gael. Ar hyn o bryd mae 45 o blant ar y gofrestr gyda rhifau cyfartal wedi’u cofrestru ar gyfer sesiynau'r bore a'r prynhawn. Mae pymtheg o blant tair oed yn mynychu ac yn ystod yr arolygiad roedd chwech yn bresennol yn y bore a saith yn sesiwn y prynhawn. Does neb yn cael eu hariannu ar hyn o bryd.

Mae bron pob un o’r plant yn dod o'r ardal leol ac mae pob plentyn yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Adeg yr arolygiad, roedd chwech o blant yn cael eu hystyried fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac roedd pump yn derbyn cymorth un-i-un. Nid oes unrhyw blentyn yn dod o gefndir ethnig.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan AGGCC yn Ebrill 2015. Nid yw wedi ei arolygu’n flaenorol gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn yn ystod eu hamser yn y lleoliad;
- mae medrau'r plant yn yr iaith Gymraeg yn datblygu'n dda;
- mae'r profiadau dysgu o ansawdd da ac mae gan y lleoliad ystafelloedd ac adnoddau da;
- mae ansawdd y berthynas rhwng staff a phlant yn dda iawn;
- mae trefniadau effeithiol ar waith i annog y plant i fwyta ac yfed yn iach;
- mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol lle mae'r holl plant yn cael eu trin yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae staff y lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau bod yr holl blant yn cyflawni'r safonau uchaf posibl;
- mae'r ymarferwyr wedi ymrwymo i ddarparu'r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant;
- mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm gyda synnwyr clir o ddiben;
- mae'r lleoliad yn elwa o gefnogaeth a chyngor da gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin;
- y bartneriaeth dda gyda'r rheini.

## Argymhellion

A1 Nodi'n glir yn y cynllunio sut i gyflawni'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

A2 Rhoi gwybodaeth i rieni am yr hyn y gallant ei wneud i helpu eu plant eu hun i wella.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da, o ystyried eu hoedran a'u hanghenion dysgu ychwanegol. Mae llawer o blant yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac mae eu llyfrau cofnodi yn dangos bod ganddynt sgiliau llythrennedd a rhifedd sydd wedi'u datblygu'n dda mewn perthynas â'u man cychwyn a'u cyfnod datblygu erbyn iddynt symud i'r ysgol gynradd.

Mae medrau gwrando'r plant yn amrywiol iawn. Ar y gorau, fel yn ystod sesiwn y prynhawn, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ar storïau a chyfarwyddiadau ac yn ymateb yn briodol, gan enwi eu hoff ganeuon er enghraifft. Maen nhw'n ymuno'n frwdfrydig ac mewn un achos yn ddigon hyderus i ganu ar eu pen eu hunain. Tanddatblygedig yw medrau gwrando'r plant iau ac maen nhw'n colli diddordeb wrth wrando ar stori yn y Gymraeg er enghraifft.

Mae llawer o blant yn sgwrsio'n hyderus yn y Saesneg, gan ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud. Mae gan y plant yn y grŵp Cymraeg ddealltwriaeth o'r iaith sy'n datblygu, er enghraifft, maen nhw'n ymateb yn gyflym i gyfarwyddiadau. Mae eu gallu i siarad yr iaith yn gyfyngedig i ychydig o eiriau ac ymadroddion. Mae'r plant yn cyfrif yn Gymraeg ac yn adnabod eu lliwiau sylfaenol.

Mae lleiafrif o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau. Mae'r plant yn trin llyfrau yn ofalus ac yn gywir. Mae llawer o blant yn trin offer bach ac offer ysgrifennu yn hyderus ac mae rhai yn deall pwrpas ysgrifennu, fel gwneud rhestrau siopa. Mae'r plant yn mwynhau chwarae rôl, fel gwisgo i fyny yn eu hoff gymeriad o stori yn ystod "Diwrnod y Llyfr".

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfrif ar y cof i 10 ac ychydig y tu hwnt i'r rhif. Mae llawer o blant yn datblygu geirfa fathemategol briodol, fel grwpio gwrthrychau sy'n fawr neu'n fach. Mae llawer o blant hefyd yn enwi siapiau dau-ddimensiwn, gan gynnwys trionglau, sgwariau a chylchoedd, ac yn gallu cyfateb siapiau yn llwyddiannus, fel wrth gwblhau pôs.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant (TGCh) yn datblygu'n foddhaol. Mae'r plant yn defnyddio ystod o offer digidol, fel i-padiau, meicroffonau, camerâu a recordwyr llais. Mae'r plant, gyda chymorth, yn gallu rheoli tegan rhaglenadwy yn briodol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r plant fedrau corfforol sydd wedi'u datblygu'n dda. Maen nhw'n mynd ar gefn eu beiciau yn fedrus, gan arddangos sgiliau cydbwyso da. Mae'r plant yma'n dangos dealltwriaeth dda o wahanol ffyrdd o symud, gan gynnwys dringo, llithro a rhedeg. Mae eu medrau echddygol manwl o dorri, gludo a phaentio yn gyson dda.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gwerth chweil a dymunol o'r byd o'u cwmpas.  Maen nhwn gwybod bod angen dŵr yn rheolaidd ar hadau sydd wedi plannu mewn compost.  Maen nhw'n defnyddio chwyddwydr i edrych ar bryfed ac yn dangos gofal da i bethau byw drwy ail osod boncyffion lle maen nhw'n dod o hyd i fwystfilod bach.

Yn gyffredinol, mae medrau meddwl a datrys problemau'r plant yn foddhaol.  Mae ychydig o blant yn dangos medrau datrys problem sydd wedi datblygu'n dda, fel dod o hyd i atebion i gwestiynau yn ystod ymweliad ag Amgueddfa Werin Cymru.

Mae medrau'r plant yn yr iaith Gymraeg yn datblygu'n effeithiol gyda'r rhai yn y grŵp bore yn dangos dealltwriaeth drylwyr, ond, hyd yma, geirfa siarad sy'n gyfyngedig. Mae'r grŵp cyfrwng Saesneg yn datblygu dealltwriaeth dda o'r iaith Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan yn hyderus mewn caneuon Cymraeg.

**Lles:  Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn cymryd rhan yn fuan yn y gweithgareddau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer. Maen nhw'n gwybod beth yw trefn y lleoliad a'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddynt.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn ymateb yn gyflym i gyfarwyddiadau ac awgrymiadau'r ymarferydd.  Mae'r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau am gyfnod rhesymol o amser wrth gael cefnogaeth gan oedolyn.  Mae amser byrbryd yn weithgaredd cymdeithasol gwerth chweil.  Mae'r plant yn dewis pryd i gael byrbryd ac yn ymddwyn yn synhwyrol gan wneud dewisiadau ynghylch pa fwydydd maen nhw'n dymuno bwyta.  Maen nhw'n sgwrsio'n synhwyrol ac yn gwrtais ac yn ystyriol o eraill.

Pan mae'r plant wedi'u cymell, mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan yn awyddus, fel wrth chwarae tu allan.  Maen nhw'n gwybod pa mor bwysig yw gwisgo'n iawn ac mae llawer yn gwneud ymdrechion da i wisgo'u cotiau eu hunain. Yn yr achosion hyn, mae'r rhan fwyaf o blant yn barod i gymryd eu tro, rhannu a dangos hunanreolaeth synhwyrol.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r profiadau dysgu o ansawdd da ac yn gyffredinol maen nhw'n cyfateb yn dda i oedran a gallu'r plant.  Mae'r gweithgareddau wedi'u seilio ar gyfres o themâu ac mae'r staff yn cynllunio ar y cyd. Ceir cyfleoedd i blant gyfrannu syniadau ac mae hyn yn sicrhau eu diddordeb.

Mae'r cynllunio'n sicrhau bod y plant yn dysgu drwy chwarae ac mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a thasgau sy'n cael eu harwain gan oedolion.  Mae'r cynllunio'n fanwl ac yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau'r plant.

Mae cyfleoedd effeithiol yn cael eu cynllunio i'r plant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r cyfleoedd rheolaidd a dyddiol ar gyfer plant wrando ar storïau, siarad am eu profiadau, fel yn ystod amser cylch, ac i edrych ar lyfrau, yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwerth chweil i ddefnyddio eu medrau gwneud marciau a dod i sylweddoli rhai o bwrpasau ysgrifennu. Yn gyffredinol, mae'r cynllunio'n effeithiol o ran datblygu medrau iaith a chyfathrebu'r plant.
Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn cynnwys y defnydd o rif, fel yn ystod cofrestru, mae'r plant yn rhifo faint o blant sy'n bresennol. Mae cyfleoedd gwerth chweil i'r plant ddefnyddio'u gwybodaeth o siapiau i chwilio am siapiau yn yr amgylchedd allanol, fel edrych ar dai a'r gwahanol siapiau maen nhw'n eu gweld.

Mae gweithgareddau chwarae rôl yn eu siop deganau ac yn ystod amser byrbryd yn rhoi dealltwriaeth dda o'r defnydd o arian i'r plant.

Mae cyfleoedd addas i blant ymarfer eu sgiliau TGCh sylfaenol yn eu chwarae. Mae profiadau perthnasol yn cael eu darparu i'r plant ddefnyddio'u medrau ymchwilio yn briodol, fel yn ystod eu chwarae tu allan.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad yn ystod sesiynau'r bore ac mae gan bron pob un o'r plant ddealltwriaeth o'r iaith sy'n datblygu. Mae mwyafrif o'r plant yn caffael rhai geiriau ac ymadroddion Cymraeg cyfarwydd, fel wrth ysgrifennu ac adnabod lliwiau. Mae gan lawer o blant wybodaeth dda o rai caneuon Cymraeg ac yn canu'n frwdfrydig.

Mae sesiwn y prynhawn yn hyrwyddo hyfedredd dwyieithog cynnar plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn gyson ac yn gywir ac mae llawer o blant yn dangos wybodaeth ddatblygol o'r iaith.

Mae pob plentyn yn dysgu am draddodiadau a dathliadau Cymru drwy weithgareddau pwrpasol gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi pan mae'r plant yn gwisgo'n briodol, yn blasu bwydydd Cymreig ac yn gwneud darluniau cynrychioliadol.

Mae ymweliadau yn cael eu defnyddio'n dda i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned eu hunain, fel i'r siopau lleol ac i lan yr afon. Mae ymwelwyr i'r lleoliad hefyd yn ymestyn profiadau dysgu'r plant, fel ymweliadau gan yr heddlu a'r nyrs fel enghreifftiau o bobl sy'n eu helpu.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac yn gwneud defnydd pwrpasol o ystod eang o dechnegau addysgu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio pob cyfle i siarad gyda'r plant er mwyn datblygu eu medrau iaith ac i ymestyn eu sgiliau cymdeithasol. Mae'r staff yn defnyddio cwestiynau yn dda i ddatblygu medrau meddwl y plant a'u hannog i weithio'n annibynnol ac i fyfyrio ar eu dysgu.

Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan oedolion a’u dewis gan y plant. Mae gweithgareddau’n cael eu cynllunio'n drylwyr gyda phwyslais effeithiol ar ddatblygu medrau a'r defnydd pwrpasol o adnoddau i gefnogi'r dysgu. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd pan fydd plant yn defnyddio eu medrau siarad i ofyn am eu hoff fwydydd. Mae’r staff yn rheoli ymddygiad plant yn dda iawn gan ddefnyddio sylwadau cadarnhaol a chanmoliaeth yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd dysgu cytûn gyda pharch ar gyfer pob plentyn ac oedolyn. Mae'r berthynas yn dda iawn ac mae’r plant yn gwybod sut a phryd i ofyn am gymorth.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maen nhw’n asesu a chofnodi eu cynnydd yn rheolaidd ac yn effeithiol. Mae proffiliau asesu yn rhoi cofnod defnyddiol i ymarferwyr o'r hyn mae pob plentyn yn medru ei wneud, ac mae’r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio’n dda i ategu'r broses o gynllunio’r profiadau dysgu. Mae’r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant yn cael eu nodi'n glir ac mae’r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Nid yw'r cynllunio, fodd bynnag, yn dangos yn gyson sut y bydd targedau o'r fath yn cael eu cyflawni.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth gyson am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ac adborth unigol ar ddiwedd sesiynau’r tymor. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu hysbysu'n gyson o ran sut y gallant helpu eu plentyn i wella. Mae trefniadau addas ar gyfer trosglwyddo'r wybodaeth hon i’r ysgolion cynradd sy'n derbyn y plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles plant. Mae’r gweithdrefnau sefydlu a pholisi drws agored y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Mae'r staff yn sensitif i anghenion plant ac yn dangos graddfa ddymunol o anwyldeb pan fydd plant yn ei chael hi'n anodd i setlo. Mae’r plant yn cael eu hannog yn briodol i fwyta'n iach ac mae cyfnodau byrbryd yn achlysuron cymdeithasol da. Mae’r plant yn dangos eu bod yn datblygu arferion hylendid personol da gan gynnwys golchi eu dwylo ar ôl bod yn y tŷ bach a chyn bwyta. Mae’r ymarferwyr yn ymarfer strategaethau ymddygiad cadarnhaol ac mae hyn yn arwain at gymuned ddysgu gytûn.

Mae’r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymweliadau â'r ardal leol, fel teithiau cerdded ar hyd yr afon, yn rhoi cyfleoedd buddiol i werthfawrogi'r byd o'u cwmpas ac mae’r rhyngweithio rhwng oedolion a phlant yn llwyddo i hyrwyddo gwerthoedd fel gofal a pharch, rhannu a helpu ei gilydd.

Mae ymwybyddiaeth y plant o'r byd ehangach yn cael ei meithrin yn briodol drwy ddathlu eu gwyliau eu hun a dathliadau o ddiwylliannau eraill, fel gŵyl Diwali a'r flwyddyn newydd Tsieineaidd. At ei gilydd, mae’r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda iawn ac mae'r plant yn dysgu am ailgylchu ac arbed ynni.

Mae'r lleoliad yn gymuned ddiogel. Ni all unrhyw un ddod i mewn neu adael yn ddirybudd ac mae’r ardal helaeth tu allan wedi’i ffensio’n briodol. Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau yn briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn hynod effeithiol. Mae gan y staff perthnasol ddealltwriaeth glir o ofynion arfer da gan weithredu yn unol â hynny. Gwneir defnydd da o asiantaethau arbenigol gan gynnwys, er enghraifft, therapyddion lleferydd. Mae gan bob plentyn sydd wedi’i nodi ag ADY gynlluniau addysg unigol ac mae’r rhieni’n cael eu cynnwys yn llawn ym mhob cam. Mae rhieni yn adrodd boddhad llwyr gyda'r gefnogaeth mae’r plant yn ei derbyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol lle mae’r holl blant yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Mae’r ymarferwyr yn annog y plant i barchu a dathlu amrywiaeth trwy ddathlu gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali, yn ogystal â gwyliau Cymreig, fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae’r lleoliad wedi’i staffio’n hael gydag ymarferwyr cymwys a phrofiadol. Mae hyn yn sicrhau bod cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn elwa o ystafelloedd o ansawdd uchel ac ardal allanol diogel a helaeth. Mae’r lleoliad o fewn Canolfan Plant Integredig yr awdurdod lleol ac mae hyn yn darparu’r lleoliad â lle diogel sy’n cael ei gynnal yn dda.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau priodol o ansawdd da sy’n addas i oedran y plant ac yn hygyrch iddynt. Mae’r arddangosfeydd o ansawdd uchel ac yn gwella'r amgylchedd dysgu’n briodol. Mae'r ardal tu allan yn helaeth ac yn hygyrch yn uniongyrchol ac yn cael ei defnyddio'n dda i gefnogi dysgu'r plant.

Mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cymunedol perthnasol i wella darpariaeth y cwricwlwm, er enghraifft, ymweliadau â'r siopau a'r ardal leol, ynghyd ag ymweliadau gan yr heddlu lleol a nyrs yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn dda. Mae'r Rheolwr Gweithrediadau yn goruchwylio’r lleoliad yn ogystal â nifer o leoliadau eraill yn yr ardal. Caiff ei chynorthwyo gan gynorthwy-ydd ac mae gweithgareddau’r lleoliad yn cael eu trefnu gan arweinydd a chynorthwy-ydd. Mae’r cynllunio’n cael ei wneud ar y cyd gyda’r pedwar aelod staff llawn amser ac un ymarferydd rhan amser sy'n ymwneud yn llawn yn yr holl weithgareddau o ddydd i ddydd, gan gynnwys cynllunio’r profiadau dysgu. Mae gan yr holl staff rolau sydd wedi'u diffinio'n dda ac mae'r lleoliad yn gweithredu system gweithiwr allweddol.

Mae’r staff yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau bod yr holl blant yn cyflawni safonau uchel, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu effeithiol. Mae’r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm gydag synnwyr clir o ddiben ac yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu effeithiol.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad yr holl staff ac i nodi a chefnogi unrhyw anghenion hyfforddi. Mae'r staff wedi manteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ac maen nhw’n awyddus i wella eu perfformiad pan fo hynny'n bosibl.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gwbl gefnogol o'r lleoliad. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac wedi cymeradwyo'r polisïau angenrheidiol. At ei gilydd, mae'n sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn esmwyth ac yn effeithlon.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw priodol i weithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a’r addasiadau diweddar. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, yn enwedig yr iaith Gymraeg.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad ac wedi nodi'n glir y prif feysydd maen nhw’n dymuno eu datblygu. Mae'r holl ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd gan rannu syniadau a ffyrdd i wella. Mae cynnydd plant yn cael ei adolygu’n gyson a'i ddefnyddio'n adeiladol i ategu dysgu’r plant ac i addasu agweddau o’r ddarpariaeth yn ôl yr angen.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn seiliedig ar adolygiad manwl o’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r cynllunio datblygiadol yn nodi meysydd priodol ar gyfer gwelliant ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol er mwyn cyflawni’r targedau sydd wedi’u gosod. Fodd bynnag, nid yw’r targedau bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar wella safonau cyflawniad y plant.

Mae'r lleoliad yn elwa'n fawr o gefnogaeth gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad amrywiaeth fuddiol o bartneriaethau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer y plant.

Mae partneriaeth gwerth chweil a gwerthfawr gyda rhieni. Mae rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal a’r meddwl sy’n cael eu dangos gan y staff ac maen nhw’n falch o'r cynnydd mae eu plant yn ei wneud, yn enwedig yn eu datblygiad cymdeithasol a dysgu’r iaith Gymraeg. Mewn trafodaeth, roedd rhieni wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am y gofal a'r cymorth mae’r lleoliad yn rhoi i’r plant a'u rhieni pan fydd plant yn cael eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i siarad â rhieni ar ddechrau a diwedd pob sesiwn ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi gan y rhieni.

Mae'r berthynas waith agos gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin yn arbennig o werthfawr.  Mae'r arweiniad a'r cyngor adeiladol sydd wedi'u darparu wedi bod yn fuddiol o ran gwella'r ddarpariaeth a chanlyniadau'r plant.

Mae partneriaethau cymunedol gyda'r heddlu, er enghraifft, yn darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer y plant a dealltwriaeth o bobl sy'n eu helpu yn y gymuned.

Mae partneriaethau anffurfiol gyda'r ysgolion cynradd lleol sy'n cefnogi trosglwyddiad y plant i addysg amser llawn yn briodol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r Rheolwr Gweithrediadau yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff cymwys a phrofiadol i gefnogi dysgu'r plant ac i'w galluogi i gyflawni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.  Mae gan y lleoliad adnoddau addas i gefnogi'r addysgu.  Mae'r ddarpariaeth y tu allan yn arbennig o nodedig.

Mae'r holl ymarferwyr yn gael mynediad i hyfforddiant addas sy'n eu cadw'n hysbys o ddatblygiadau cyfredol, fel y canllawiau newydd i gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Mae hyn yn helpu i wella ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu sy'n cael eu darparu ar gyfer y plant.

Mae gan y Rheolwr a'i staff ddealltwriaeth gadarn o'r gyllideb ac mae gwariant yn cael ei blaenoriaethu'n briodol yn ôl anghenion addysgol y lleoliad.  O ystyried  y canlyniadau mae'r plant yn eu cyflawni a boddhad y rhieni, barnwyd bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 16 | 14<br>88%<br>80% | 2<br>12%<br>20% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 14 | 13<br>93%<br>85% | 1<br>7%<br>15% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 16 | 14<br>88%<br>86% | 2<br>12%<br>13% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child is making good progress at the setting. | 15 | 13<br>87%<br>81% | 2<br>13%<br>18% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 16 | 13<br>81%<br>72% | 3<br>19%<br>27% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Teaching is good. | 16 | 14<br>88%<br>81% | 2<br>12%<br>19% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 14<br>88%<br>84% | 2<br>12%<br>16% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 12<br>80%<br>76% | 3<br>20%<br>23% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corf yn rheolaidd. |
| My child is safe at the setting. | 16 | 14<br>88%<br>85% | 2<br>12%<br>15% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives | 16 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael |

Adroddiad Cylch Meithrin Rhydyfelin
Rhagfyr 2015

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | | 88% | 12% | 0% | 0% | | cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 16 | 13 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 16 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 16 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 16 | 13 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 13 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 16 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Y arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |